



Cynllun Gwarant Fferm Da Byw – Ffurflen adolygu iechyd a lles
(l'w chwblhau gan filfeddyg y fferm yn flynyddol)



Enw Aelod WLBP:

Cyfeiriad y Fferm:

Cod Post:

Rhif Aelodaeth FAWL:

Enw'r Milfeddyg:

Practis Milfeddyg:

Os yw'r fferm yn defnyddio mwy nag un practis, mae'n rhaid i'r adolygiad gynnwys yr holl feddyginiaethau sy'n cael eu rhagnodi/defnyddio

Wrth adolygu cynllun iechyd a chofnodion meddyginiaethau'r fferm, a oes tystiolaeth o broblemau iechyd anifeiliaid sy'n digwydd yn rheolaidd?

OES/NAC OES

Os 'OES', nodwch isod os gwelwch yn dda ac esboniwch pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod llai o achosion o'r problemau a restrwyd yn y dyfodol

Problemau/Arsylwadau

A yw cofnodion meddyginiaethau diweddaraf y fferm wedi'u hadolygu gan gynnwys yr holl wrthfotigau sy'n cael eu rhagnodi a'u defnyddio?

DO/NADDO

Os 'NADDO', esboniwch pam ddim isod

Os defnyddiwyd gwrthfotigau, dylid awgrymu os gwelwch yn dda sut ellid gwneud llai o ddefnydd ohonynt heb beryglu lles yr anifeiliaid.

Argymhellion:

Os yw cyffuriau HP CIA (cephalosporins, fluoroquinolones a colistin 3^{ydd} a 4^{ydd} cenhedlaeth) wedi cael eu defnyddio, dylid cynnig argymhellion ynghylch sut i leihau neu ddileu'r defnydd a wneir ohonynt yn y dyfodol. Mae'n arfer da cael tystiolaeth gadarn o brofion diagnostig/sensitifedd os ydynt wedi'u defnyddio.

Argymhellion:

Nid ystyrir bellach bod defnydd cyson o wrthfotigau (proffylactig) ar raddfa eang yn arfer derbyniol. Os yw gwrthfotigau yn cael eu defnyddio ar raddfa eang, a oes modd gwneud cynlluniau i leihau'r defnydd lle bo hynny'n bosib? Dylid cynnig argymhellion ynghylch strategaethau gwahanol isod.

Argymhellion:

A oes perygl o ddatblygu ymwrthedd i gyffuriau anthelmintig yn sgil defnyddio cyffuriau anthelmintig yn anghywir neu'n ddiangen?

OES/NAC OES

Os yn briodol, dylid cynnig cynllun rheoli pryfed a fyddai'n lleihau'r risg o ddatblygu ymwrthedd i gyffuriau anthelmintig a chyfyngu ar ddefnyddio cyffuriau anthelmintig yn anghywir neu'n ddiangen.

Argymhellion:

Os oes tystiolaeth o broblem llyngyr, dylid awgrymu cynllun rheoli llyngyr sy'n gallu lleihau'r risg o ddatblygu ymwrthedd a lle bo hynny'n bosibl, cyfyngu ar ddefnyddio llyngyrleiddiaid yn anghywir neu'n ddiangen.

Argymhellion:

Gan fod angen cael cynllun bioddiogelwch yn ei le, dylid adolygu gweithdrefnau cwarantîn a ddefnyddir wrth brynu/dychwelyd da byw i'r daliad/au i asesu os ydynt yn briodol. Os yw'r gweithdrefnau'n briodol, nodwch isod sut maent yn eich bodloni. Os nad ydynt yn briodol, neu os nad oes gweithdrefnau o'r fath yn bodoli, dylid argymhell sut y gellid lleihau'r risg o glefydau ac organebau gwrthiannol yn cyrraedd y fferm neu'n datblygu ynddi.

Argymhellion:

Llofnod y Milfeddyg:

Llofnod y Ffermwr:

Dyddiad:

Darn allan o safonau cynllun FAWL Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf (Fersiwn 6.0) Gorffennaf 2018 <i>Safonau sy'n berthnasol i'r adolygiad milfeddygol</i>		
Teitl Safonol:	Cyf	Safon
Cymorth Milfeddygol	8a Allwedd	Mae'n rhaid i'r fuches neu'r ddiadell fod dan ofal rheolaidd milfeddyg neu bractis wedi'i enwi.
Cynllun Iechyd & Lles gan gynnwys gweithdrefnau Bioddiogelwch	8b Allwedd	Mae'n rhaid llunio cynllun iechyd a lles cynhwysfawr ar gyfer yr holl fentrau da byw. Bydd angen i'r cynllun gynnwys adolygiad manylion o weithdrefnau rheolaidd fel rheoli parasitiaid a pholisi brechu; canlyniadau unrhyw brofi perthnasol (e.e. post-mortem, dadansoddi bwydydd da byw, cyfrif wyau carthol ac ati), manylion o broblemau sy'n digwydd yn rheolaidd a thargedau am y flwyddyn ddilynol. Mae'n rhaid iddo hefyd roi manylion o weithdrefnau bioddiogelwch y fferm (gan gynnwys rheoliadau cwarantîn) i reoli risgiau bioddiogelwch pan ddaw stoc i mewn o ba bynnag le.
Adolygiad iechyd a lles da byw blynyddol	8c Allwedd	Mae'n rhaid cynnal adolygiad iechyd a lles da byw yn flynyddol gyda milfeddyg y fferm. Disgwylir i'r milfeddyg adolygu: (1) problemau sy'n digwydd yn aml a materion allweddol, gan wneud argymhellion i wella'r sefyllfa (2) cofnodion a data meddyginiaethau, gan gynnwys y defnydd a wneir o gyffuriau anthelmintig, y defnydd a wneir o lyngyrleiddiaid, cyfanswm yr holl wrthfiotigau sy'n cael eu rhagnodi a'u defnyddio, gan argymhell sut i leihau faint o'r meddyginiaethau a ddefnyddir, lle bo hynny'n briodol (3) y defnydd o Wrthfiotigau Hollbwysig â'r Flaenoriaeth Uchaf (HP-CIA) gan argymhell sut i leihau'r defnydd a wneir ohonynt yn gyfrifol (4) triniaeth proffylactig gan argymhell strategaethau gwahanol ar gyfer rhwystro clefydau (5) bioddiogelwch